Cymwysterau Cymru
Rhestr o Ddogfennau Rheoleiddio

Mai 2018

Anfonwch unrhyw sylwadau i ***policy@qualificationswales.org***

Cynnwys

Cyflwyniad 3
Amodau 4
Meini prawf 6
Gweithdrefnau 9
Polisïau 10

Noder: Mae'r holl ddogfennau ar gael ar ein gwefan oni nodir fel arall.

Cyflwyniad

Mae ein Hamodau Cydnabod Safonol yn cyfeirio at "gydymffurfiaeth â dogfennau rheoleiddio" (gweler amod B7) a "chydymffurfiaeth cymwysterau â dogfennau rheoleiddio" (gweler amod D5).

Y dogfennau rheoleiddio sydd mewn grym ar hyn o bryd ar gyfer cyrff dyfarnu a gydnabyddir gennym yw'r dogfennau yn y Rhestr hon o Ddogfennau Rheoleiddio. Os oes gwahaniaethau rhwng dogfennau rheoleiddio neu os ydynt yn gwrth-ddweud ei gilydd, oni nodir yn benodol, bydd yr Amodau Cydnabod Safonol yn cael blaenoriaeth.

Caiff rhai dogfennau rheoleiddio eu cymhwyso'n gyffredinol (cymhwysiad cyffredinol), tra bod eraill yn gymwys i gymwysterau penodol (cymhwysiad cymhwyster benodol). Hefyd, gall fod gan ddogfennau rheoleiddio sy'n gymwys i gymwysterau penodol ofynion pwnc benodol ychwanegol y mae angen glynu wrthynt (cymhwysiad pwnc benodol).

Ceir pedwar prif gategori o ddogfennau rheoleiddio.

AMODAU

Gofynion rheoleiddio y mae'n rhaid i gorff dyfarnu ddangos ei fod yn cydymffurfio â nhw'n barhaus

MEINI PRAWF

Gofynion rheoleiddio a wiriwn fel rhan o broses porth diffiniedig, ac sy'n destun cydymffurfiaeth barhaus

GWEITHDREFNAU

Gofynion rheoleiddio gweithdrefnol

POLISÏAU

Polisïau sy'n amlinellu ein dull rheoleiddio

Amodau

Amodau yw'r gofynion rheoleiddio y mae'n rhaid i gorff dyfarnu ddangos ei fod yn cydymffurfio â nhw'n barhaus. **Ceir Amodau a Gymhwysir yn Gyffredinol sy'n gymwys i Gyrff Dyfarnu yn gyffredinol, yn ogystal ag Amodau Penodol sy'n gymwys i gymwysterau penodol.**

Amodau a Gymhwysir yn Gyffredinol

Amodau Cydnabod Safonol

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r rheolau a'r rheoliadau y mae'n rhaid i bob corff dyfarnu a'i gymwysterau eu bodloni wrth gynnig cymwysterau yng Nghymru.

Gofynion Tystysgrif Ychwanegol

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r gofynion ar gyfer dylunio a chynhyrchu pob tystysgrif y mae corff dyfarnu yn ei rhoi mewn perthynas â chymhwyster neu ddyfarniad credyd cymeradwy neu reoleiddiedig (gan gynnwys rhai dynodedig) sydd ar gael ganddo yng Nghymru.

Lefelau cymwysterau a chydrannau

Mae'r ddogfen hon yn ategu'r Amodau Cydnabod Safonol, drwy nodi gofynion a chanllawiau mewn perthynas ag aseinio lefelau i gymwysterau rheoleiddiedig a (lle y bo'n briodol) eu cydrannau.

Amodau Cymhwyster Benodol

Amodau Cydnabod Safonol Ychwanegol ar gyfer cymwysterau TGAU a TAG (Mehefin 2017)

Mae'r amodau hyn yn cwmpasu dau brif faes:

i. Adolygiadau, Cymedroli ac Apeliadau
ii. Pennu ffiniau graddau newydd ar gyfer cymwysterau TGAU, Safon Uwch ac UG

Amodau Cydnabod Safonol Ychwanegol ar gyfer Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru

Cyrff dyfarnu sy'n ceisio cynnig Tystysgrifau Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru gydymffurfio ag Amodau i Gymwysterau Penodol a nodir yn y dogfen hwn.

Egwyddorion Dyfarnu (ar gyfer cymwysterau TGAU a TAG a Thystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru) (Tachwedd 2016)

Mae'n amlinellu'r egwyddorion cyffredinol wrth ddyfarnu cymwysterau TGAU a TAG a Thystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru.

Rheoleiddiadau asesiadau TGAU dan reolaeth (Saesneg yn unig)

Mae'r ddogfen hon yn gymwys i asesiadau TGAU dan reolaeth lle cafodd y cymhwyster ei addysgu gyntaf cyn blwyddyn academaidd 2015/16.

Nid yw'r rheoleiddiadau hyn yn gymwys i'r canlynol:

- Cymwysterau TGAU (A*-G) diwygiedig i'w haddysgu gyntaf o fis Medi 2015.
- Cymwysterau TGAU diwygiedig (wedi'u graddio 9-1)

Cod Ymarfer Cymwysterau TGAU, TAG, Prif Ddysgu a Phrosiect (Mai 2011)
fel y'i diwygiwyd gan yr adendwm i'r ddogfen "Cod Ymarfer Cymwysterau TGAU, TAG, Prif Ddysgu a Phrosiect" (Mehefin 2012) (Saesneg yn unig)

- O 00:01 ddydd Iau, 18 Awst 2016, ni fydd y ddogfen hon yn gymwys mwyach i gymwysterau TAG.
- O 00:01 ddydd Iau, 25 Awst 2016, ni fydd y ddogfen hon yn gymwys mwyach i gymwysterau TGAU.

Ar ôl y dyddiadau hyn, dim ond ar gyfer cymwysterau Prosiect a Phrif Ddysgu y mae Cod Ymarfer Cymwysterau TGAU, TAG, Prif Ddysgu a Phrosiect yn parhau mewn grym.

Gofynion ar gyfer pennu lefelau cyrhaeddiad penodedig ar gyfer cymwysterau TAG a TGAU (Mehefin 2017) (Saesneg yn unig)
Cyflwynwyd y gofynion hyn oherwydd, o 20 Gorffennaf 2016, rydym wedi tynnu'r adrannau o'r Cod Ymarfer Cymwysterau TGAU, TAG, Prif Ddysgu a Phrosiect (Mai 2011) (y Cod Ymarfer) sy'n ymdrin â'r rheolau presennol ar gyfer cymwysterau TGAU (A*-G) a chymwysterau UG a Safon Uwch etifeddol yn ôl. Mae'r gofynion newydd yn adlewyrchu'r rhai yn y Cod Ymarfer. Rydym yn cymhwyso'r un darpariaethau at gymwysterau UG a Safon Uwch diwygiedig a chymwysterau TGAU.

Gofynion ar gyfer pennu lefelau cyrhaeddiad penodedig ar gyfer cymwysterau Tystysgrif Her Sgiliau (Bagloriaeth Cymru) (Ebrill 2017)
Mae'r ddogfen hon yn nodi ein gofynion ar gyfer pennu lefelau cyrhaeddiad penodedig ar gyfer Tystysgrifau Sylfaen, Cenedlaethol, Sylfaen/Cenedlaethol a Her Sgiliau Uwch.

Rheolau Ailsefyll Cymwysterau TAG, UG a Safon Uwch (Medi 2017)
Mae'r ddogfen hon yn nodi'r rheolau sy'n gymwys i gymwysterau UG a Safon Uwch cymeradwy yn unig.

Rheolau Ailsefyll Cymwysterau TGAU (Mehefin 2017)
Mae'r ddogfen hon yn nodi'r rheolau sy'n gymwys i gymwysterau TGAU yn unig.

Meini prawf

Meini prawf yw'r gofynion rheoleiddio a wiriwn fel rhan o broses porth diffiniedig, ac maent yn destun cydymffurfiaeth barhaus.

Caiff rhai meini prawf rheoleiddio eu cymhwyso'n gyffredinol **(Meini Prawf Cyffredinol)** tra bod eraill yn gymwys i gymwysterau penodol **(Meini Prawf Cymhwyster Benodol)**. Hefyd, gall fod gan rai pynciau ofynion meini prawf pwnc benodol y mae angen glynu wrthynt **(Meini Prawf Pwnc Benodol)**.

Meini Prawf Cyffredinol

Meini Prawf ar gyfer Cydnabyddiaeth
Mae'r ddogfen hon yn nodi'r gofynion y mae angen i gorff dyfarnu eu bodloni cyn y gall gael ei gydnabod. Diweddarwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2015 er mwyn ein galluogi i gymhwyso'r meini prawf ar gyfer cydnabyddiaeth at geisiadau a wneir gan gyrff dyfarnu i gael eu cydnabod o dan Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015.

Meini prawf cymeradwyo ac amodau cymeradwyo (Chwefror 2018)
Mae'r dogfen hwn yn amlinellu'r meini prawf y mae'n rhaid i gymhwyster eu bodloni cyn y gellir ei gymeradwyo ac yr amodau cymeradwyo.

Rhestr Cymwysterau Blaenoriaethol
Mae hon yn rhestr o'r cymwysterau rydym wedi cyhoeddi meini prawf cymeradwyo ar eu cyfer, neu yr ystyrir eu cymeradwyo. Ni chaiff cymwysterau ar y rhestr hon eu cymeradwyo oni fyddant yn bodloni'r meini prawf cymeradwyo cyhoeddedig. Nid yw statws cymeradwy yn arwydd o bwysigrwydd cymharol unrhyw gymhwyster. Byddwn yn ystyried cymwysterau nad ydynt ar y Rhestr Cymwysterau Blaenoriaethol os bydd meini prawf cymeradwyo cyhoeddedig ar gael. Fodd bynnag, byddwn yn rhoi mwy o flaenoriaeth i gymeradwyo'r cymwysterau sydd ar y Rhestr o Gymwysterau Blaenoriaethol.

Meini Prawf Cymhwyster Benodol

Egwyddorion Cynllunio ar gyfer set o gymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru (Ionawr 2018) (Saesneg yn unig)
Diweddariad i'r Egwyddorion Cynllunio Sgiliau Hanfodol a gyhoeddwyd yn 2015. Mae'r ddogfen hon yn cynnwys diweddariadau a wnaed yn dilyn ein hadolygiad o'r broses o gyflwyno'r cymwysterau Sgiliau Hanfodol diwygiedig a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2017.

Egwyddorion cynllunio ar gyfer Bagloriaeth Cymru (Tachwedd 2014)
Mae'n gymwys i gymwysterau Bagloriaeth Cymru lle cafodd y cymhwyster ei addysgu gyntaf yn ystod blwyddyn academaidd 2015/16 neu ar ôl hynny. ***Fel y'i diwygiwyd gan*** yr adendwm i'r ddogfen "Egwyddorion cynllunio ar gyfer Bagloriaeth Cymru (Tachwedd 2014)"

Meini prawf ar gyfer cymwysterau TGAU diwygiedig

Mae'r rhain yn gymwys i gymwysterau TGAU lle cafodd y cymhwyster ei addysgu gyntaf **yn ystod** blwyddyn academaidd 2015/16 **neu ar ôl hynny**. Mae Egwyddorion Pwnc a/neu Feini Prawf Cymeradwyo (yn ogystal â'r Meini Prawf Cyffredinol) yn gymwys i rai cymwysterau TGAU diwygiedig yng Nghymru.

Egwyddorion Cymhwyster TGAU (Gorffennaf 2014) fel y'i diwygiwyd gan y ddogfen Diwygiadau i Egwyddorion Cymwysterau TGAU (Awst 2015)
Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer Cymwysterau TGAU (Gorffennaf 2016)

Egwyddorion pwnc

Egwyddorion pwnc ar gyfer TGAU Saesneg Iaith (Hydref 2014) (Saesneg yn unig)
Egwyddorion pwnc ar gyfer TGAU Mathemateg (Awst 2014)
Egwyddorion pwnc ar gyfer TGAU Mathemateg – Rhifedd (Awst 2014)
Egwyddorion pwnc ar gyfer TGAU Cymraeg Iaith (Hydref 2014)

Meini Prawf Cymeradwyo

Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer TGAU Busnes (Gorffennaf 2016)
Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer TGAU Cyfrifiadureg (Gorffennaf 2016)
Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer TGAU Dylunio a Thechnoleg (Gorffennaf 2016)
Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer TGAU Astudio'r Cyfryngau (Gorffennaf 2016)
Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer TGAU Cymraeg Ail Iaith (Gorffennaf 2016)

Meini Prawf Cyffredinol ar gyfer Cymwysterau TAG UG a Safon Uwch Diwygiedig

Mae'r rhain yn gymwys i gymwysterau Safon Uwch lle cafodd y cymhwyster ei addysgu gyntaf **yn ystod** blwyddyn academaidd 2015/16 **neu ar ôl hynny**. Mae Meini Prawf Cymeradwyo (yn ogystal â'r Meini Prawf Cyffredinol) yn gymwys i rai cymwysterau TAG diwygiedig yng Nghymru.

Egwyddorion cymhwyster TAG UG a Safon Uwch (Awst 2014)
Mae'n gymwys i gymwysterau TAG UG a Safon Uwch lle cafodd y cymhwyster ei addysgu gyntaf yn ystod blwyddyn academaidd 2015/16 neu ar ôl hynny.

Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer Cymwysterau TAG UG a Safon Uwch (Gorffennaf 2016)
Mae'r rhain yn nodi'r gofynion ar gyfer pob manyleb TAG UG a Safon Uwch newydd a gymeradwywyd i'w dyfarnu yng Nghymru o fis Medi 2017.

Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer TAG UG a Safon Uwch Dylunio a Thechnoleg (Gorffennaf 2016)
Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer TAG UG a Safon Uwch Llywodraeth a Gwleidyddiaeth (Gorffennaf 2016 (Saesneg yn unig)
Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer TAG UG a Safon Uwch yn y Gyfraith (Gorffennaf 2016)

Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer TAG UG a Safon Uwch mewn Mathemateg (Gorffennaf 2016)
Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer TAG UG a Safon Uwch mewn Mathemateg Bellach (Gorffennaf 2016)
Meini Prawf Cymeradwyo TAG UG a Safon Uwch Astudio'r Cyfryngau (Gorffennaf 2016)

Meini prawf ar gyfer cymwysterau TGAU a TAG cyn eu diwygio

Mae'r meini prawf hyn yn gymwys i gymwysterau TGAU a TAU cyn eu diwygio lle cafodd y cymhwyster ei addysgu gyntaf **cyn** blwyddyn academaidd 2015/16.

Meini Prawf ar gyfer Cymwysterau TGAU (Chwefror 2012) (Saesneg yn unig)
Fe'i defnyddiwyd fel sail ar gyfer datblygu ac achredu cymwysterau TGAU cyn eu diwygio lle cafodd y cymhwyster ei addysgu gyntaf cyn blwyddyn academaidd 2015/16.

Meini Prawf ar gyfer Cymwysterau TAG UG a Safon Uwch (Gorffennaf 2011) (Saesneg yn unig)
Fe'i defnyddiwyd fel sail ar gyfer datblygu ac achredu pob cymhwyster TAG UG a Safon Uwch lle cafodd y cymhwyster ei addysgu gyntaf cyn blwyddyn academaidd 2015/16.

Datblygwyd meini prawf pwnc ar gyfer cymwysterau TGAU a TAG cyn eu diwygio cyn i Cymwysterau Cymru gael ei sefydlu. Rhaid i unrhyw gorff dyfarnu sy'n cynnig y cymwysterau hyn gymhwyso'r meini prawf pwnc sydd ar wefan Ofqual at gymwysterau TGAU a chymwysterau TAG (Saesneg yn unig).

Gweithdrefnau

Mae'r dogfennau hyn yn amlinellu gofynion rheoleiddio gweithdrefnol. Caiff rhai gweithdrefnau eu cymhwyso'n gyffredinol, ac mae rhai yn gymwys i gymwysterau penodol.

Gweithdrefnau Cyffredinol

Rheolau am Geisiadau i Gydnabod Cyrff Dyfarnu (Mehefin 2017)
Mae'n gymwys i unrhyw gorff sydd am wneud cais i ddod yn gorff dyfarnu cydnabyddedig ac i'w gymwysterau gael eu rheoleiddio yng Nghymru.

Rheolau am geisiadau i ddynodi cymwysterau (Chwefror 2018)
Mae'r ddogfen hon wedi'i hanelu at gyrff dyfarnu cydnabyddedig sy'n awyddus I wneud cais i Cymwysterau Cymru ddynodi ei gymhwyster.

Cynllun a wneir o dan Adran 15 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015
Yn unol ag Adran 15 o Ddeddf Cymwysterau Cymru ("y Ddeddf"), mae'r ddogfen bresennol yn gwneud darpariaethau ar gyfer y ffordd y byddwn yn gwneud penderfyniadau ynglŷn â datblygu cymwysterau blaenoriaethol cyfyngedig.

Cynllun a wneir o dan Adran 17 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015
Yn unol ag Adran 17 o Ddeddf Cymwysterau Cymru ("y Ddeddf"), mae'r ddogfen bresennol yn gwneud darpariaethau ar gyfer ceisiadau i'w cymeradwyo o dan Adran 17(2) o'r Ddeddf, a'n hystyriaeth o'r cymwysterau hynny.

Gweithdrefnau Cymhwyster Benodol

Y Gwasanaeth Adolygu Gweithdrefnau Arholi (Tachwedd 2016)
Rhydd hyn gyfle i glywed dadl bod corff dyfarnu wedi methu â dilyn neu gymhwyso'r gweithdrefnau angenrheidiol yn briodol wrth farcio neu ddyfarnu cymwysterau TGAU, TAG, Bagloriaeth Cymru a Thystysgrifau Her Sgiliau, a/neu wrth ymdrin ag Ymholiad ynghylch Canlyniadau neu apêl ddilynol.

Gweithdrefnau Cyfnewid Data Cymru

- Gweithdrefnau Cyfnewid Data Cymru Haf 2017 (Saesneg yn unig)
- Gweithdrefnau Cyfnewid Data Cymru Tachwedd 2017 (Saesneg yn unig)
- Gweithdrefnau Cyfnewid Data Cymru Ionawr 2018 (Saesneg yn unig)

Mae'r gweithdrefnau yn y dogfennau hyn yn nodi'r data y mae'n rhaid i CBAC eu darparu yn ystod cyfnewidion ddata unigol ar gyfer pob cymhwyster; sy'n rhan o'r broses cyfnewid data.

Polisïau

Mae ein polisïau yn amlinellu ein dull rheoleiddio. Caiff pob polisi ei gymhwyso'n gyffredinol.

Gorfodi

Polisi Cymryd Camau Pan Aiff Pethau o Chwith (Mehefin 2016)
Mae hwn ar gyfer cyrff dyfarnu cydnabyddedig ac aelodau o'r cyhoedd i'w galluogi i ddeall sut y gallem ddefnyddio ein pwerau gorfodi a chosbi.

Polisi Capio Ffioedd (Mehefin 2016)
Mae'r Polisi Capio Ffioedd yn egluro o dan ba amgylchiadau y gallwn osod terfyn ar y tâl y gall corff dyfarnu ei godi mewn perthynas â dyfarnu cymwysterau a ariennir yn gyhoeddus.

Adolygiadau a thystiolaeth

Polisi Ymgynghori (Mehefin 2017)
Mae'r datganiad polisi hwn yn egluro o dan ba amgylchiadau ac ym mha ffordd rydym yn cynnig cynnal ymgynghoriadau.

Datganiad Polisi ar Gynnal Adolygiadau o Gymwysterau a'r System Gymwysterau
Mae'r datganiad polisi hwn yn egluro sut rydym yn adolygu gweithgareddau cyrff dyfarnu cydnabyddedig a'u cydymffurfiaeth â'n gofynion rheoleiddio, yn ogystal â'r ffordd rydym yn adolygu'r system gymwysterau ehangach.

Cwynion am Gyrff Dyfarnu (Medi 2015)
Mae'n gymwys i unrhyw un sydd am gwyno am gorff dyfarnu cydnabyddedig neu am un neu fwy o'r cymwysterau rheoleiddiedig a gynigir gan gorff dyfarnu o'r fath.

Polisi Rheoleiddio Interim Chwythu'r Chwiban
Nod y polisi yw egluro pwy y gellir ei ystyried yn chwythwr chwiban, egluro'r math o ddatgeliadau y gallwn ac na allwn eu hystyried a nodi'r broses y byddwn yn ei dilyn wrth ymdrin â datgeliadau gan chwythwyr chwiban.

Polisi Interim Allbynnau Ystadegol
Mae'r ddogfen hon yn disgrifio'r ffordd y byddwn yn cyhoeddi allbynnau ystadegol sy'n ymwneud â'r data rydym yn eu casglu ar gymwysterau rheoleiddiedig.

Polisi Diwygiadau a Chywiriadau Interim ar gyfer Datganiadau Ystadegol
Mae'r ddogfen hon yn disgrifio'r ffordd y gallwn ddiwygio ein datganiadau ystadegol rheolaidd. Mae "datganiadau ystadegol" yn cyfeirio at ddatganiadau ystadegol rheolaidd a gaiff eu cyhoeddi ar ein gwefan.

Cydnabod a chymeradwyo

Polisi Rhestr Cymwysterau Blaenoriaethol a Chymwysterau Blaenoriaethol Cyfyngedig
Mae'r polisi Rhestr Cymwysterau Blaenoriaethol a Chymwysterau Blaenoriaethol Cyfyngedig yn nodi ein dull o gymeradwyo cymwysterau i'w dyfarnu yng Nghymru, ac yn amlinellu'r rhesymeg dros gyfyngu ar gymwysterau blaenoriaethol a'r prosesau cysylltiedig.

Polisi Cydnabod (Hydref 2016)
Mae'r Polisi Cydnabod yn egluro ein gofynion ar gyfer cydnabod cyrff dyfarnu, pam rydym yn llunio meini prawf ac yn gwneud rheolau ar gyfer cydnabod cyrff dyfarnu ac o dan ba amgylchiadau y gellir ildio cydnabyddiaeth neu ei thynnu'n ôl.

Polisi Dynodi (Chwefror 2018)
Mae'r polisi hwn yn esbonio sut rydym yn arfer ein swyddogaethau mewn perthynas â dynodi cymwysterau. Pan fydd corff dyfarnu a gydnabyddir gennym yn awyddus i un o'i gymwysterau fod yn gymwys i'w ddefnyddio ar gyrsiau penodol a ariennir yn gyhoeddus, bydd y corff dyfarnu fel arfer yn gwneud cais i ni i ddynodi'r cymhwyster.

Polisi Rheoleiddio Cymwysterau cyfrwng-Cymraeg a Dwyieithog (Mai 2016)
Mae'r polisi hwn yn disodli'r Datganiad Interim am Gymwysterau cyfrwng-Cymraeg ac yn esbonio ein dull cyffredinol o ddarparu cymwysterau cyfrwng-Cymraeg a dwyieithog gan gyrff dyfarnu cydnabyddedig.

Apeliadau a digwyddiadau

Polisi Apeliadau Rheoliadol (Mehefin 2016)
Mae'n gymwys i unrhyw un yr effeithiwyd arno gan ein penderfyniadau rheoliadol ac sydd am apelio yn erbyn y penderfyniad hwnnw.

Polisi Rheoli Digwyddiadau Rheoleiddio (Mai 2017)
Mae'r polisi yn amlinellu ein prosesau mewnol ar gyfer rheoli digwyddiadau rheoleiddio. Lluniwyd y weithdrefn hon er mwyn sicrhau bod unrhyw un a hoffai ein hysbysu o ddigwyddiad rheoleiddio yn deall y weithdrefn ar gyfer rheoli'r broses hon.

Swyddogaethau eraill

Datganiad Polisi ar Ddarparu Gwasanaethau
Mae'r datganiad polisi hwn yn nodi sut rydym yn darparu gwasanaethau.

Datganaid Polisi ar Gydweithio
Mae'r datganiad hwn wedi'i anelu at unrhyw un sydd am gydweithio â Cymwysterau Cymru mewn cysylltiad â'n swyddogaethau neu faterion eraill sy'n ymwneud â chymwysterau. Mae'n esbonio o dan ba amgylchiadau y gallwn gydweithio fel y'u diffinnir o dan Adran 52 (Cydweithio) o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015 ("y Ddeddf").

Datganiad Polisi Codi Tâl am Wasanaethau Rheoleiddio (Ionawr 2016)

Mae'r polisi hwn ar gyfer cyrff dyfarnu. Mae'n esbonio o dan ba amgylchiadau y gallwn godi tâl ar gyrff dyfarnu o ran y costau yr eir iddynt wrth gyflawni ein swyddogaethau amrywiol.